Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

# Hysbysiad hwylus

## Aelodau Cymru o Senedd Ewrop 2009-2014

**Mehefin 2011**

## Cyflwyniad

Senedd Ewrop[1] yw unig gorff yr Undeb Ewropeaidd sy'n cael ei ethol yn uniongyrchol.

Ar hyn o bryd, mae gan Senedd Ewrop 736 o Aelodau (ASE), sy'n cynrychioli 500 miliwn o ddinasyddion ar draws 27 gwlad ("Aelod-wladwriaethau") yr UE. Ar hyn o bryd, mae tua thraean o'r Aelodau yn fenywod.[2]

Mae gan y DU 72 Aelod, sydd wedi'u gwasgaru dros 12 rhanbarth. **Mae Cymru yn un o'r "rhanbarthau" hyn, ac mae ganddi 4 Aelod.**

Gall bywyd ASE fod yn "brofiad nomadaidd", gan ei fod yn cael ei rannu dros dri phrif lleoliad:

- Strasbourg, cartref swyddogol Senedd Ewrop. Mae'r Senedd yn cyfarfod 12 gwaith y flwyddyn yn Strasbourg, sydd gyfystyr ag un wythnos o fusnes y mis.
- Brwsel, ail gartref Senedd Ewrop, lle y cynhelir y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd pwyllgor, ynghyd â nifer o sesiynau llai o'r Cyfarfod Llawn yn ystod y flwyddyn.
- Etholaeth yr Aelodau, sef Cymru gyfan yn achos Aelodau Cymru.

[1] I gael trosolwg manylach, ewch i wefan Senedd Ewrop
[2] Swyddfa Gwybodaeth Senedd Ewrop yn y Deyrnas Unedig, cwestiynau cyffredin [fel ar 20 Mehefin 2011]

## Etholiadau Senedd Ewrop 2009

Cynhelir etholiadau Senedd Ewrop bob pum mlynedd, a chynhaliwyd yr etholiadau mwyaf diweddar ym mis Mehefin 2009. Bydd yr ASE presennol yn gwasanaethu yn eu swyddi tan fis Mai 2014. Cynhaliwyd etholiadau 2009 ar draws yr UE rhwng 4 Mehefin a 7 Mehefin 2009. Dangosir canlyniadau Cymru yn y tabl isod.

**Tabl 1: Canlyniadau etholiadau Senedd Ewrop yng Nghymru**[3]

| Plaid | Nifer y pleidleisiau | Canran o'r bleidlais | Seddi a enillwyd | Aelodau etholedig |
|---|---|---|---|---|
| Plaid Genedlaethol Prydain (BNP) | 37,114 | 5.4 | | |
| Y Blaid Gristnogol | 13,037 | 1.9 | | |
| Y Blaid Geidwadol | 145,193 | 21.2 | 1 | Dr Kay Swinburne |
| Y Blaid Werdd | 38,160 | 5.6 | | |
| Jury Team | 3,793 | 0.6 | | |
| Y Blaid Lafur | 138,852 | 20.3 | 1 | Derek Vaughan |
| Democratiaid Rhyddfrydol | 73,082 | 10.7 | | |
| No 2 EU: Yes to Democracy | 8,600 | 1.3 | | |
| Plaid Cymru | 126,702 | 18.5 | 1 | Jill Evans |
| Y Blaid Lafur Sosialaidd | 12,402 | 1.8 | | |
| Plaid Annibyniaeth y DU (UKIP) | 87,585 | 12.8 | 1 | John Bufton |
| **Cyfanswm nifer y pleidleisiau dilys (a)** | **684,520** | | | |
| **Y nifer a bleidleisiodd (canran) (b)** | **30.5** | | | |

Ffynhonnell: Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol

Nodiadau: (a) Nid yw cyfanswm nifer y pleidleisiau yn cynnwys papurau pleidleisio sy’n cael eu gwrthod am unrhyw reswm.

(b) Mae’r nifer a bleidleisiodd yn cynnwys pob pleidlais a fwriwyd (gan gynnwys papurau a ddifethwyd) fel canran o’r etholwyr.

Yn 2009, enillodd Llafur un sedd yn llai nag yn 2004. Enillodd Blaid Annibyniaeth y DU sedd, a chafodd ei hethol i gynrychioli Cymru yn Senedd Ewrop am y tro cyntaf.

Roedd y nifer a bleidleisiodd yn etholiadau 2009 yn sylweddol is nag yn 2004, gan ostwng o 41.9 i 30.5 y cant; gostyngiad o 11 pwynt canran. Mae’r nifer a bleidleisiodd yng Nghymru a gweddill y DU wedi bod yn gyson is na chyfartaledd yr UE, sef 43 y cant yn 2009. Mae’r ffigurau’n amrywio’n fawr ar draws Aelod Wladwriaethau. Pleidleisiodd 91 y cant yn Lwcsembwrg, tra bod 20 y cant wedi pleidleisio yn Slofacia a Lithiwania.[4]

[3] I gael rhagor o wybodaeth am etholiadau Senedd Ewrop, gweler Canlyniadau etholiadau Senedd Ewrop 2009, a gyhoeddwyd gan y Gwasanaeth Ymchwil [fel ar 23 Mehefin 2011]
[4] Senedd Ewrop, Canlyniadau etholiadau Senedd Ewrop 2009 [fel ar 23 Mehefin 2011]

## Aelodau Cymru o Senedd Ewrop 2009-2014

Dyma'r ASE a etholwyd yng Nghymru yn 2009, eu pleidiau a'u grwpiau gwleidyddol yn Senedd Ewrop:

- **John Bufton,** Plaid Annibyniaeth y Du a Grŵp Rhyddid a Democratiaeth Ewropeaidd
- **Jill Evans,** Plaid Cymru a'r Gwyrddion/Cynghrair Rhydd Ewrop
- **Dr Kay Swinburne,** y Ceidwadwyr Cymreig a Grŵp Ceidwadwyr a Diwygwyr Ewrop
- **Derek Vaughan,** Llafur Cymru a Grŵp Cynghrair Blaengar y Sosialwyr a'r Democratiaid.

Yn ogystal â pherthyn i un o saith o grwpiau gwleidyddol yn Senedd Ewrop, mae pob un o ASE Cymru yn aelodau o un o 20 o bwyllgorau sefydlog, sy'n ystyried deddfwriaeth ac yn craffu ar bolisiau. Gall eu grwpiau gwleidyddol ofyn iddynt hefyd fod yn aelodau o bwyllgorau arbennig neu "dros dro" a gaiff eu sefydlu mewn ymateb i faterion sydd o bwys gwleidyddol mawr i'r UE, e.e. yr argyfwng ariannol, neu i baratoi ar gyfer y trafodaethau ar gyllideb aml-flwyddyn yr UE.

Yn olaf, gall ASE Cymru ymwneud ag amrywiaeth o weithgorau ffurfiol ac anffurfiol yn Senedd Ewrop, ynghyd â gwaith cynrychioladol allanol.

Mae'r adran a ganlyn yn rhoi crynodeb byr o'r pwyllgorau, gweithgorau a gweithgareddau allanol eraill y mae'r pedwar ASE o Gymru yn ymwneud â hwy[5].

## John Bufton ASE: Plaid Annibyniaeth y DU a'r Grŵp Rhyddid a Democratiaeth

***Pwyllgorau:***

- Pwyllgor Datblygu Rhanbarthol (aelod)
- Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (eilydd)

## Jill Evans ASE: Plaid Cymru a'r Gwyrddion/Cynghrair Rhydd Ewrop

***Pwyllgorau:***

- Y Pwyllgor Amgylchedd, Iechyd Cyhoeddus a Diogelwch Bwyd (aelod)
- Y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (eilydd)
- Pwyllgor ar Hawliau Menywod a Chydraddoleb Rhywiol

[5] I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **wefan Senedd Ewrop**, a gwefannau'r ASE o Gymru: **John Bufton**, **Jill Evans**, **Dr Kay Swinburne** a **Derek Vaughan**

***Dirprwyaethau:***

- Y ddirprwyaeth ar y berthynas â Chyngor Deddfwriaethol Palesteina
- Y ddirprwyaeth ar y berthynas ag Irac (aelod)

***Adroddiadau a chyflwyno barn:***

- Adolygiad o Gyfarwyddeb yr UE ar Rwystro Sylweddau Peryglus. Mabwysiadwyd yr adroddiad ym mis Mehefin 2010. Cliciwch **yma** am fanylion.

***Eraill:***

- Is-gadeirydd y Gwyrddion/Cynghrair Rhydd Ewrop
- Llywydd Cynghrair Rhydd Ewrop

## Dr Kay Swinburne ASE: y Ceidwadwyr Cymreig a Grŵp y Ceidwadwyr a'r Diwygwyr Ewropeaidd

***Pwyllgorau:***

- Materion Economaidd ac Ariannol (aelod a chydlynydd y Grŵp)
- Y Pwyllgor Arbennig ar yr Argyfwng Ariannol, Economaidd a Chymdeithasol (aelod)

***Dirprwyaethau:***

- Y ddirprwyaeth i Gynulliad Seneddol Undeb Môr y Canoldir (aelod)
- Y ddirprwyaeth ar y berthynas â'r Swistir a Norwy, Cyd-bwyllgor Seneddol yr UE-Gwlad yr Iâ a Chyd-bwyllgor Seneddol yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (eilydd)
- Y ddirprwyaeth ar y berthynas â Chyngor Deddfwriaethol Palesteina (eilydd)

***Adroddiadau a chyflwyno barn:***

Adroddiad ar reoleiddio masnachu mewn offerynnau ariannol. Mabwysiadwyd yr adroddiad ym mis Tachwedd 2010. Cliciwch **yma** i gael manylion.

## Derek Vaughan ASE: Llafur Cymru a Chynghrair Blaengar y Sosialwyr a'r Democratiaid

***Pwyllgorau:***

- Pwyllgor y Gyllideb (aelod)
- Y Pwyllgor Rheolaeth Gyllidebol (eilydd)
- Pwyllgor arbennig ar yr heriau polisi a'r adnoddau cyllidebol ar gyfer Undeb Ewropeaidd cynaliadwy ar ôl 2013 (Pwyllgor SURE) (eilydd)

***Dirprwyaethau***

- Y ddirprwyaeth ar y berthynas â Gweriniaeth Pobl Tsieina (aelod)
- Y ddirprwyaeth ar y berthynas â Japan (eilydd)

***Adroddiadau a chyflwyno barn:***

Barn ar bumed adroddiad y Comisiwn Ewropeaidd ar gydlyniant a'r strategaeth ar gyfer y polisi cydlyniant ar ôl 2013. Mabwysiadwyd y farn ar 12 Ebrill 2011. Cliciwch **yma** i gael manylion.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am ASE Cymru, cysylltwch â:

**Gregg Jones** (**Gregg.Jones@cymru.gov.uk**), Swyddfa'r UE

**Gareth Thomas** (**Garethdavid.Thomas@cymru.gov.uk**), y Gwasanaeth Ymchwil

Gallwch weld rhestr lawn o'n **hysbysiadau hwylus** yma.

**Rhif ymholiad: 11/1276 Gareth Thomas/Gregg Jones**
**Mae briffiau gan y Gwasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd.**

**Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon drwy'r post i'r Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd CF99 1NA neu dros e-bost i Research.Service@cymru.gov.uk**